

EICH CANLLAW I GYNLLUNIO CINIO MAWR

Awgrymiadau bach i helpu i roi eich cynlluniau ar waith.

RHANNWCH Y SYNIAD A GWELD PWY SY'N HAPUS I HELPŲ

Mae sgwrsio â chymydog neu ddau, postio ar grŵp Facebook lleol neu ollwng nodyn trwy ychydig o flychau llythyrau yn ffordd wych o gyflwyno'r syniad a chael pobl i gymryd rhan o'r cychwyn cyntaf!



DEWISWCH DDYDDIAD AC AMSER

Penwythnos y Cinio Mawr yw 7-8 Mehefin ond gallwch ymuno unrhyw bryd drwy gydol y Mis y Gymuned. Cinio, brecinio, te prynhawn neu swper machlud haul – chi sydd i benderfynu beth sy'n gweithio orau i'ch cymuned



DEWISWCH LE I GYNNAL EICH CINIO MAWR

Yn dibynnu ar ble y cynhelir eich Cinio Mawr, efallai y bydd angen i chi wirio caniatâd. Yn cynnal parti stryd neu angen cau ffordd? Gnewch gais cyn gynted â phosibl – mae rhai cynghorau angen hyd at 3 mis o rybudd

PENDERFYNWCH A FYDDWCH CHI'N CODI ARIAN

A oes rhywbeth sy'n bwysig i'ch cymuned? Mae'r Cinio Mawr yn gyfle gwych i godi arian at elusen neu achos lleol – edrychwch ar y syniadau yn eich pecyn a meddylwch am weithgareddau y gallech eu gwneud yn ddiffwdan.

RHOWCH WYBOD I BOBL EI FOD YN DIGWYDD

Anfonwch wahoddiadau, gosodwch bosteri a lledaenwch y gair mewn unrhyw ffordd y gallwch – gall rhannu'n ddigidol trwy grwpiau Whatsapp neu Facebook helpu i leihau argraffu a chyrraedd hyd yn oed mwy o bobl!



CYNLLUNIWCH PWY SY'N DOD Â BETH

Gwahoddwch bobl i ddod â bwyd, platiau, cyllyll a ffyrce neu hyd yn oed cadair neu ddwy – y tebyg yw y bydd popeth y bydd ei angen arnoch yn debygol o fod ar garreg eich drws



MEDDYLIWCH AM Y PETHAU BACH YCHWANEGOL

O gerddoriaeth ac addurniadau, i drefnu ychydig o gemau i'w chwarae – mae llawer o syniadau ar TheBigLunch.com sy'n garedig i'ch pwrs a'r blaned

CADWCH OLWG AR RAGOLYGN Y TYWYDD

Mae Cynllun B bob amser yn ddefnyddiol os yw eich Cinio Mawr y tu allan! Pwy allai fod â gazebo neu ymbarél ychwanegol i'w rhannu os bydd hi'n bwrw glaw? Neu gwnewch yn siŵr bod digon o gysgod a dŵr wrth law os yw'n boeth



MWYNHEWCH Y DIWRNOD, A THYNNWCH DDIGONEDD O LUNIAU!

Beth am drefnu ffordd i bawb gadw mewn cysylltiad ar ôl y digwyddiad? Peidiwch ag anghofio rhannu eich straeon a'ch lluniau o'r diwrnod gyda ni trwy dagio @edencommunities



Y CINIO MAWR

GWNAED YN BOSIB GAN MADE POSSIBLE BY

eden
project

Pears
Foundation

MEWN PARTNERIAETH GYDA PARTNERED BY

GO
OP

GREENE KING
CARE OF COMMUNITIES



CYNLLUNIWCH, PARATOWCH, DATHLWCH!

Lle defnyddiol i nodi'ch syniadau, gwneud eich rhestrau,
a pharatoi i ddathlu.

PRYD:

BLE:

YMLAEN LLAW

YN AGOSACH AT Y
DIWRNOD

AR Y DIWRNOD



PWY SY'N DOD Â BETH

Y PETHAU BACH YCHWANEGOL

